# Atal ceffylau gan ddefnyddio dulliau penodedig

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag atal ceffylau gan ddefnyddio dulliau penodedig fel dal coes i fyny, defnyddio coler pen, ffrwyn neu ddull arall.  Gallech fod yn atal y ceffyl er mwyn ei archwilio neu ar gyfer tasgau arferol.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gyda goruchwylydd am gyfrifoldebau a dulliau gweithio.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn

Bydd angen i chi allu adnabod peryglon yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. ewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. mynd at y ceffyl yn unol â'r cyfarwyddiadau ac mewn ffordd sy'n lleihau straen ar y ceffyl, a pherygl i chi eich hun ac i eraill
3. atal ceffylau gan ddefnyddio dulliau a nodir gan y goruchwylydd
4. cadw rheolaeth dros y ceffyl trwy gydol y broses
5. rhyddhau'r ceffyl o'r atalfa yn ôl cyfarwyddyd y goruchwylydd
6. cael eglurhad pan nad yw'r cyfarwyddiadau'n glir
7. cyfathrebu'n effeithiol gyda'r rheiny sy'n gweithio gyda'r ceffyl wrth ei atal
8. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am  offer amddiffynnol personol
2. sut i fynd at geffylau mewn ffordd briodol er mwyn lleihau straen a pherygl i chi eich hun ac i eraill
3. y rhesymau pam y mae angen atal ceffylau
4. dulliau ac offer a ddefnyddir i atal ceffylau, a phryd i'w defnyddio
5. sut i ddweud a yw'r ceffyl o dan straen wrth gael ei atal a'r camau i'w cymryd
6. pryd i gael cymorth wrth atal ceffyl
7. pwysigrwydd cyfathrebu gyda'r person sy'n gweithio gyda'r ceffyl tra'i fod yn cael ei atal
8. peryglon i geffylau, i chi eich hun ac i eraill a sut y gellir lleihau'r peryglon hyn
9. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

Defnyddio tri o'r dulliau neu offer canlynol i atal ceffyl:

- dal coes i fyny
- pinsio'r croen ar y gwddf
- ffrwyn
- coler pen
- penffust
- chifney
- plwc
- llonyddu

Atal ceffylau gan ddefnyddio dulliau penodedig

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq204 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; ymdrin; atal; arwain; dal; harnais; ffrwyn; coler |